

# NEWYDDLLEN

## Swyddfeydd Newydd y Cyngor Coed Pella



RHIFYN 2 – MAI 2017

Mae'r adborth ar effaith gadarnhaol y gwaith adeiladu a chyflogi contractwyr lleol ym Mae Colwyn wedi bod yn dda. Gobeithiwn y bydd yr effaith gadarnhaol yn parhau dros y deunaw mis nesaf o'r gwaith adeiladu, ac y bydd yn gwella ymhellach pan fydd cannoedd o staff yn cael eu hadleoli i'r swyddfeydd newydd ar ddiwedd 2018.

### ENWI'R ADEILAD

Enw'r adeilad eiconig newydd fydd Coed Pella. Y llynedd, gwahoddwyd staff a chynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i awgrymu enwau addas ar gyfer yr adeilad, ac mae'r enw a ddewiswyd yn diwallu'r briff o barchu diwylliant a threftadaeth yr ardal. Mae'r enw Coed Pella'n cyfieithu i Saesneg yn fras fel 'Far(away) Trees', ac yn cydnabod yr ardal a fu'n llawn coed ar un adeg.

O ran hanes, mae'r llun gyferbyn (ar frig yr ochr dde) yn dangos rhan o'r safle o ddechrau'r 20fed Ganrif. Ym 1903 prynodd y Cyngor ddau dŷ pâr mawr ar gornel Ffordd Conwy a Ffordd Coed Pella a'u trawsnewid yn swyddfeydd y Cyngor. Defnyddiwyd y swyddfeydd ar gyfer datblygiad Pearl Assurance ar ddechrau'r 1970au ac fe ddefnyddiwyd y safle'n ddiweddar gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn bennaf. Gan symud i'r 21ain Ganrif, caffaelodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'r safle yn 2014. Dymchwelwyd y datblygiad o'r 1970au yn gynharach eleni ac erbyn diwedd 2018 bydd adeilad swyddfeydd Coed Pella yn ei le, a fydd yn cael ei feddiannu gan y Cyngor fel rhan o'r Rhaglen Foderneiddio.



Hen Neuadd y Dref, Coed Pella, Bae Colwyn (darparwyd gan Grŵp Treftadaeth Bae Colwyn).



Swyddfeydd Newydd y Cyngor, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn

### NEWYDDION O'R SAFLE

Roedd y broses ddymchwel yn gyfnod prysur ar y safle yn ystod y gaeaf. Cynhaliodd y peirianwyr sifil lleol, Jennings, waith sylweddol ar ac o amgylch y safle er mwyn gallu dechrau ar y gwaith o osod yr haenau dur.

Efallai bo'r rhai sydd wedi mynd heibio'r safle wedi sylwi ar dwll mawr sydd wedi'i dyllu tua chefn y safle i baratoi ar gyfer maes parcio islwr. Aethpwyd a lefel y ddaear i lawr 4 metr o'r lefel wreiddiol, gan aildefnyddio llawer o'r deunydd ar y safle.

Byddai unrhyw un sydd â diddordeb mewn offer a pheiriannau mawr wedi gweld y peiriannau gosod haenau yn cyrraedd ar y safle. Roedd yr haenau yn cael eu gosod yn y ddaear gyda dyfnder o hyd at 10 metr mewn rhai ardaloedd.

Dywedodd Mark Hooson, Rheolwr Prosiect B&K "Cymerodd y broses o osod yr haenau 7 wythnos ac roedd yn elfen swnllyd iawn o'r gwaith adeiladu. Yn ystod rhan hon y prosiect, roeddem yn gweithio gydag Adain Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor ac yn ceisio cyfathrebu'n rheolaidd gyda phreswylwyr lleol. Hoffem ddiolch i bawb am eu cydweithrediad a'u hamynedd yn ystod y cyfnod hwnnw."

Ar ôl cwblhau'r gwaith o osod yr haenau, symudwyd ymlaen â'r trawstiau cynnal, sy'n cynnwys gosod pyst taradr y seiliau, gyda llai o aflonyddwch, mae'r pyst yn cael eu gosod oddeutu 16 metr i'r ddaear. Dros y misoedd nesaf, bydd y gwaith o osod y trawstiau cynnal a'r trawstiau capio yn parhau wrth i is-strwythur yr adeilad newydd gael ei lunio.

Dywedodd Bleddyn Evans, Rheolwr Prosiect Gofod Swyddfa Conwy, "Mae cyflymder y gwaith, ynghyd â'r newid yn edrychiad y safle wedi bod yn gyffrous. Mae llawer wedi dangos diddordeb yn un o'r prosiectau adeiladu mwyaf yng nghanol tref Bae Colwyn ers cenhedlaeth, ac mae'r ymatebion wedi bod yn gadarnhaol yn bennaf".

"Rydym yn falch iawn o'r cynnydd a wnaed gan y contractwyr i glirio'r safle a dechrau gosod y sylfeini. Bu'n ddiddorol gweld datblygiad y safle dros y misoedd diwethaf. Mae gweithio yn y ddaear yn weithgaredd heriol bob amser, ond rydym wedi rheoli'r risg yn dda drwy waith tîm rhagorol rhyngom ni, B&K a'r Cyngor." ychwanegodd Wes Erlam, Cyfarwyddwr Datblygu Muse Developments.



Trawstiau capio, offer a pheiriannau ar y safle.

Recordiwyd y broses ddymchwel ar ffilm gan gwmni TAPE o Hen Golwyn.

Mae Bowmer & Kirkland yn gwneud pob ymdrech posibl i ddefnyddio cwmnïau lleol i adeiladu'r swyddfeydd newydd, ac mae'r Cyngor wedi cefnogi hyn. Mae Bowmer & Kirkland wedi penodi Evadx yn ddiweddar, cwmni o Sir Conwy, i adeiladu'r ffrâm ddur ar gyfer y swyddfeydd newydd.

Cadarnhaodd Bleddyn Evans: "Mae Evadx yn gwmni o Fae Cinmel, felly mae hyn yn dda iawn ar gyfer cyflogaeth leol, sgiliau lleol a'r economi ehangach. Daeth Evadx yn ymwybodol o'r prosiect drwy ddiwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr yn 2016. Rydym yn awyddus iawn i gynnwys cwmnïau lleol i ddarparu gwerth cymdeithasol drwy'r prosiect."

Cynhelir digwyddiad nesaf Cwrdd â'r Prynwr ddydd Iau 5 Hydref 2017 yn swyddfeydd safle Coed Pella B&K. Bydd manylion pellach y digwyddiad hwn yn cael eu cadarnhau yn yr wythnosau nesaf ac i gael rhagor o wybodaeth, gweler y cyfeiriad e-bost isod: [OAS@conwy.gov.uk](mailto:OAS@conwy.gov.uk) neu [s.martin@bandk.co.uk](mailto:s.martin@bandk.co.uk)

#### MAES PARCIO NEWYDD PARC EIRIAS

Dechreuodd y gwaith i adeiladu maes parcio newydd ym Mharc Eirias ddiwedd mis Mawrth. Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan Contractwyr Peirianeg Sifil ac Adeiladu Jennings, sydd wedi'u lleoli yn Llysfaen.

Bydd y maes parcio newydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan ymwelwyr sy'n mynychu digwyddiadau chwaraeon, busnes a hamdden ym Mharc Eirias; bydd yn cynnig gofodau parcio ar gyfer ceir, bysiau, beiciau modur a beiciau.

Trwy drosglwyddo'r Swyddfeydd Dinesig cyfagos i Muse Developments yn 2019 fel rhan o'r Prosiect Gofod Swyddfa, ni fydd gan stadiwm Eirias fynediad i'r maes parcio yn y Swyddfeydd Dinesig mwyach, felly bydd creu'r maes parcio newydd hwn yn gymorth i liniaru'r golled ac yn ychwanegu at y cyfleusterau ym Mharc Eirias.

#### ACADEMI SGILIAU CENEDLAETHOL AR GYFER ADEILADU

Fel rhan o'r gwaith i ddarparu'r Gwerth Cymdeithasol mwyaf posibl o'r prosiect hwn, mae'r partneriaid wedi paratoi Cynllun Sgiliau Cyflogaeth.

Mae Muse Developments, Bowmer & Kirkland a Chyngor Conwy wedi bod yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) i gyflawni statws Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Adeiladu ac yn falch o fod yn un o'r dulliau cyntaf o fod yn seiliedig ar y cleient yn yr Academi yng Nghymru.

Un o amcanion Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Adeiladu CITB yw lleihau diweithdra ymysg pobl ifanc.

Eglurodd Bleddyn Evans: "Bydd ein cydweithrediad gyda CITB a B&K i hyrwyddo'r prosiect fel Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Adeiladu yn darparu buddion hirdymor ar gyfer yr ardal. Rydym wedi mynd gam ymhellach i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae'r prosiect yn eu darparu i gynyddu lefel sgiliau'r gweithlu lleol ac i fod yn fodel o arfer gorau."

Ychwanegodd Malcolm Robertson, Uwch Reolwr Contractau ar gyfer Bowmer & Kirkland: "Mae hyfforddi a datblygu'r gweithlu yn hanfodol i sicrhau llwyddiant busnes. Drwy B&K, neu drwy ein hisgontractwyr, rydym eisoes wedi creu swyddi newydd a chyfleoedd prentisiaeth i ddiwallu meincnodau perthnasol CITB. Rydym yn credu bod y model hwn yn un sy'n gallu cyflawni nifer o amcanion ar gyfer yr holl fudd-ddeiliaid dan sylw a bydd yn gadael etifeddiaeth barhaus ym Mae Colwyn a sir Conwy, ar ôl i ni gwblhau'r gwaith adeiladu ar ddiwedd 2018."

Dywedodd Eiry Davies o CITB, "Rydym wedi bod yn falch iawn o ddymuniad Bowmer & Kirkland a Chyngor Conwy i sicrhau bod adeiladu'r swyddfeydd newydd ym Mae Colwyn yn datblygu cyfleoedd hyfforddiant a datblygu o'r radd flaenaf. Bydd y meincnodau yn eu Cynllun Sgiliau Cyflogaeth yn sicrhau y bydd y prosiect yn gwella sgiliau'r bobl leol sydd wedi cyfranogi ac yn cynorthwyo â datblygiad economaidd, cymdeithasol a chymunedol yr ardal, sydd o fudd i'r Cyngor a'r gymuned leol ehangach. O safbwynt y contractwr, gall gweithlu sydd wedi'u hyfforddi'n well wneud gwahaniaeth o ran effeithlonrwydd, gan gynorthwyo cyflogwyr i gyflawni'r gwaith ar amser ac o fewn y gyllideb."

#### 'GET INTO CONSTRUCTION'

Mae Bowmer & Kirkland, Muse Developments a Chyngor Conwy yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog i gynnal cynllun 'Get into Construction' rhwng 5 a 23 Mehefin ym Mae Colwyn.

Llwyddiant diweddar cynllun 'Get into Construction' yng Ngharchar EM Berwyn yn Wrecsam mewn partneriaeth gyda Lendlease, a ganmolwyd gan Ragoriaeth Adeiladu Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, oedd y cymhelliant i'r Cyngor wneud y cysylltiad rhwng Ymddiriedolaeth y Tywysog a phrosiect Coed Pella.

Bydd Ymddiriedolaeth y Tywysog yn gwahodd pobl ifanc lleol 18-25 oed, nad ydynt mewn hyfforddiant, addysg na chyflogaeth ar hyn o bryd, i ddigwyddiad blasu ar ddiwedd mis Mai, a bydd oddeutu pymtheg o unigolion yn cael eu dewis i fynychu'r rhaglen adeiladu am dair wythnos ym mis Mehefin. Bydd Bowmer & Kirkland a Pheirianwyr Sifil Jennings yn cynnig profiad o weithio yn y diwydiant adeiladu i'r cyfranogwyr, gan weithio ar safle yn y gymuned leol. Mae cydweithrediad y sector preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector wedi bod yn allweddol er mwyn datblygu hyn.

"Y nod yw y bydd o leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn cyflogaeth yn y diwydiant. Mae'r cyfle hwn yn darparu'r sgiliau sylfaenol a'r hanes blaenorol

i'w gyflwyno i gyflogwr os ydynt yn penderfynu eu bod eisiau gwaith yn y diwydiant adeiladu." Meddai Philippa Davies o Ymddiriedolaeth y Tywysog.

"Mae'r diwydiant adeiladu yn debyg i'r rhan fwyaf o feysydd gwaith eraill, mae cyflogwyr yn chwilio am ymgeiswyr gydag agwedd da, sy'n brydlon ac yn llawn cymhelliant. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r rhai sydd â diddordeb mewn darganfod sut beth yw gweithio ar safle" eglurodd Malcolm Robertson o B&K.

Cynhelir Diwrnod Blasu cynllun 'Get into Construction' ddydd Mercher 31 Mai 2017. Os hoffech chi gael eich ystyried, neu bod rhywun yr ydych yn eu hadnabod â diddordeb, cysylltwch ag Ymddiriedolaeth y Tywysog ar 0800 842842 neu ewch i'r wefan [www.princes-trust.org.uk](http://www.princes-trust.org.uk)

#### AILGYLCHU

Drwy ddymchwel hen adeilad yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r 1970au crëwyd cyfleoedd i aildefnyddio deunyddiau ar y safle ac yn y gymuned leol.

Aildefnyddiwyd teils nenfwd mewn eiddo masnachol arall yn y dref; derbyniodd preswylwyr lleol foncyffion o'r safle ac mae arlunydd lleol yn creu darn o waith celf gyda'r allweddi o'r hen adeilad.

Dywedodd Mark Hooson, B&K, "Rydym wedi cynnig popeth a oedd yn ddiogel, addas ac y gellir ei achub i'r gymuned leol ac rydym wedi'n synnu â'r niferoedd sydd wedi'u defnyddio. O ran y deunydd adeiladu, megis brics, blociau neu gerrig, rydym wedi ailgylchu llawer o'r deunyddiau a'u haildefnyddio yn y gwaith sylfaen."

#### YN ÔL I'R DYFODOL

Bydd preswylwyr lleol, siopwyr a'r rhai sy'n mynd heibio'r safle yn sylwi yn fuan ar y lluniau lliwgar ar y palis o amgylch y safle. Y llynedd, comisiynodd y Cyngor artist o Ogledd Cymru, Mai Thomas, i weithio gydag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol i greu'r gwaith celf, sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth adeiladu cyfoethog Bae Colwyn. Bu Ysgol Eirias, Ysgol Pen-y-Bryn, Ysgol Sant Joseff (St Joseph's), Ysgol Nant y Groes a Grŵp Ieuentid Bae Colwyn yn gweithio gyda Mai i ddatblygu delweddau a dioramâu manwl i uno gorffennol, presennol a dyfodol y dref. Mi fydd y gwaith celf yn ymddangos ochr yn ochr â delweddau o'r prosiectau a arweiniwyd gan y Cyngor fel rhan o'r gwaith parhaus i adfywio Bae Colwyn.

Gwahoddwyd yr ysgolion a gyfrannodd at y prosiect i ddigwyddiad arbennig i ddathlu eu gwaith. Mae B&K hefyd wedi sefydlu cystadleuaeth lliwio ar gyfer yr ysgolion lleol, a byddwn yn ceisio ymgysylltu ymhellach wrth i'r prosiect fynd rhagddo.



Mae'r llun uchod yn dangos y safle o gabannau'r safle ar hyd Ffordd Lansdowne, ac yn dangos maint y gwaith cloddio, pyst y seiliau yng nghanol y safle a'r trawstiau capio ar gyfer y maes parcio aml-lawr. Mae'r gwaith a wneir ar y safle yn parhau i fod yn waith paratoi ac is-strwythurol, a rhagwelir y bydd y ffrâm ddur yn cael ei chodi tua chefn y safle ym mis Gorffennaf, a gobeithiwn y gallwn rannu delweddau pellach o'r prosiect cyffrous hwn gyda chi yn newyddlen mis Awst.